

Archwilio Ein Byd

Pobl Arbennig



Fersiwn Estynedig

Archwilio Ein Byd

Pobl Arbennig

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrandio ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopiō, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:

Plant 3 – 5 oed
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn siarad gyda'u ffrindiau am yr holl bobl arbennig maen nhw'n eu cyfarfod ac yn eu gweld. Heddiw, mae Aled a Siân yn dweud wrth eu ffrindiau am eu hymweliad arbennig i weld y nyrs yn y Ganolfan Iechyd. Fe

edrychodd Aled ar fap er mwyn dod o hyd i'r ffordd i'r Ganolfan Iechyd. Fe edrychodd Siân mewn llyfr er mwyn dod i wybod mwy am y nyrs. Roedd Aled a Siân yn llawn cyffro wrth weld y Ganolfan Iechyd ar draws y stryd brysur.




Fe agorodd Aled a Siân y drws a mynd i mewn i'r Ganolfan lechyd. Yno, fe wnaethon nhw eistedd yn dawel yn yr ystafell aros fawr, i ddisgwyl eu tro. Ac yna, fe agorodd y

nys y drws i groesawu Aled a Siân i'w hystafell. Roedd y nys yn gwisgo iwniffform smart iawn. Ar y bathodyn, roedd ei henw, "Nys Catrin".




Rhoddodd y nyrs wahoddiad i Aled a Siân eistedd ar y cadeiriau wrth ei desg. Ar y ddesg, fe welodd Aled a Siân ei chyfrifiadur, tortsh, a pheiriant cymryd pwysedd gwaed.

Yn ymyl ei desg roedd y basn ymolchi, y dŵr a'r tywel. Fe ddywedodd y nyrs wrthyn nhw mai ei gwaith hi oedd helpu pobl i fyw bywyd iach.



Fe ddywedodd y nyrs wrth Aled a Siân ei bod hi'n rhoi brechiadau i blant er mwyn eu helpu i fyw bywyd iach. Mae brechiadau'n helpu plant i osgoi cael afiechydon cas. Pan oedd Aled a Siân yn ifanc iawn, roedd hi wedi rhoi eu

brechiadau cyntaf iddyn nhw. Heddiw, fe rolodd Aled a Siân eu llewys i gael pigiad atgyfnerthol gan y nyrs. Fe aeth y ddau â thystysgrif bob un adref gyda nhw i gofio am y diwrnod.



Roedd Aled a Siân yn llawn cyffro ynghylch gweld y nyrs. Maen nhw'n dweud wrth eu ffrindiau am eu hymwelïad arbennig â'r Ganolfan Iechyd. Maen nhw'n dweud yr

hanes wrth eu ffrindiau am weld y nyrs. "Nawr, dywedwch wrthym ni am y bobl arbennig rydych chi wedi eu cyfarfod a'u gweld," meddai Aled a Siân wrth eu ffrindiau.



Mae Peter a Mary'n dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig i weld y ficer yn yr eglwys. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer yr ymweliad cyn cychwyn. Fe edrychodd Peter ar fap er mwyn

dod o hyd i'r ffordd at yr eglwys. Fe edrychodd Mary mewn llyfr er mwyn dod i wybod mwy am y ficer. Roedd Peter a Mary yn llawn cyffro wrth weld yr eglwys ar draws y stryd brysur.



Fe agorodd Peter a Mary'r drws a mynd i mewn i'r eglwys. Yno, roedd y ficer yn disgwyl amdany'n nhw. Croesawodd y ficer Peter a Mary i'r eglwys. Roedd y ficer yn gwisgo casog ddu laes oedd yn cyrraedd at ei thraed. Fe sylwodd Peter a

Mary ei bod yn gwisgo esgidiau duon smart, ac roedd coler wen am ei gwddf. Ar y bathodyn, roedd ei henw, "Ficer Bethan".



Rhoddodd y ficer wahoddiad i Peter a Mary eistedd ar y cadeiriau wrth ei desg. Ar y ddesg, fe welodd Peter a Mary ei chyfrifiadur, ystolau lliwgar, a Beibl. Yn yr eglwys, fe

welodd Peter a Mary'r bedyddfaen a'r allor. Fe ddywedodd y ficer wrthyn nhw mai ei gwaith hi oedd helpu pobl i fyw bywyd Cristnogol iach.



Fe ddywedodd y ficer wrth Peter a Mary ei bod yn bedyddio plant er mwyn eu helpu i fyw bywyd Cristnogol iach. Pan oedd Peter a Mary'n ifanc iawn, roedd hi wedi eu bedyddio

wrth y bedyddfaen. Heddiw, fe benliniodd Peter a Mary i dderbyn bendith gan y ficer. Fe aeth y ddau â chroes fach bob un adref gyda nhw i gofio am y diwrnod.



Mae Nathan a Rachel yn dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig i weld y rabi yn y synagog. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer yr ymweliad cyn cychwyn. Fe edrychodd Nathan ar fap er

mwyn dod o hyd i'r ffordd at y synagog. Fe edrychodd Rachel mewn llyfr er mwyn dod i wybod mwy am y rabi. Roedd Nathan a Rachel yn llawn cyffro wrth weld y synagog ar draws y stryd brysur.



Fe agorodd Nathan a Rachel y drws a mynd i mewn i'r synagog. Yno, roedd y rabi'n disgwyl amdanyn nhw. Croesawodd y rabi Nathan a Rachel i'r synagog. Roedd y rabi'n gwisgo siôl weddïo hir dros ei hysgwyddau. Fe

sylwodd Nathan a Rachel ei bod yn gwisgo cap bach crwn am ei phen, a chadwyn gyda Seren Dafydd arni o amgylch ei gwddf. Ar y bathodyn, roedd ei henw, "Rabi Miriam".



Rhoddodd y rabi wahoddiad i Nathan a Rachel eistedd ar y cadeiriau wrth ei desg. Ar y ddesg, fe welodd Nathan a Rachel ei chyfrifiadur, siolau gweddio lliwgar, a llyfr gweddi.

Yn y synagog, fe welodd Nathan a Rachel sgroliau'r Torah a'r ddarllenfa. Fe ddywedodd y rabi wrthyn nhw mai ei gwaith hi oedd helpu pobl i fyw bywyd Iddewig iach.



Fe ddywedodd y rabi wrth Nathan a Rachel ei bod hi'n dysgu pobl am y Torah er mwyn eu helpu i fyw bywyd Iddewig iach. Pan aeth Nathan a Rachel i'r synagog, roedden nhw'n hoffi gweld sgroliau'r Torah. Heddiw, mae

Nathan a Rachel yn sefyll wrth y ddarllenfa ac yn ceisio darllen yn uchel o'r Torah. Fe aeth y ddau â sgrôl fach bob un adref gyda nhw i gofio am y diwrnod.



Mae Ahmed a Salma'n dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig i weld yr imam yn y mosg. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer yr ymweliad cyn cychwyn. Fe edrychodd Ahmed ar fap er

mwyn dod o hyd i'r ffordd at y mosg. Fe edrychodd Salma mewn llyfr er mwyn dod i wybod mwy am yr imam. Roedd Ahmed a Salma'n llawn cyffro wrth weld y mosg ar draws y stryd brysur.




Fe agorodd Ahmed a Salma'r drws a mynd i mewn i'r mosg. Yno, roedd yr imam yn disgwyl amdany'n nhw. Croesawodd yr imam Ahmed a Salma i'r mosg. Roedd yr imam yn gwisgo crys hir llwydfelyn, a throwsus o liw golau.

Fe sylwodd Ahmed a Salma nad oedd yn gwisgo esgidiau, ac roedd yn gwisgo cap gwyn am ei ben. Ar y bathodyn, roedd ei enw, "Imam Abdullah".



Rhoddodd yr imam wahoddiad i Ahmed a Salma eistedd ar y cadeiriau wrth ei ddesg. Ar y ddesg, fe welodd Ahmed a Salma ei gyfrifiadur, y gleiniau gweddïo, a'r Qur'an. Yn y

mosg, fe welodd Ahmed a Salma'r ystafelloedd ymolchi a'r neuadd weddïo. Fe ddywedodd yr imam wrthyn nhw mai ei waith ef oedd helpu pobl i fyw bywyd Mwslimaidd iach.



Fe ddywedodd yr imam wrth Ahmed a Salma ei fod yn arwain gweddïau yn y mosg er mwyn helpu'r bobl fyw bywyd Mwslimaidd iach. Pan fydd Ahmed a Salma yn hŷn, fe fyddan nhw hefyd yn mynd i'r mosg i weddïo. Heddiw,

mae Ahmed a Salma'n sefyll, yn ymgrymu, ac yn eistedd ac yn ceisio actio'r weddi ddyddiol. Fe aeth y ddau â mat gweddïo bach bob un adref gyda nhw i gofio am y diwrnod.



Mae Rajeev a Meena'n dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig i weld yr offeiriad yn y deml. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer yr ymweliad cyn cychwyn. Fe edrychodd Rajeev ar fap er

mwyn dod o hyd i'r ffordd at y deml. Fe edrychodd Meena mewn llyfr er mwyn dod i wybod mwy am yr offeiriad. Roedd Rajeev a Meena'n llawn cyffro wrth weld y deml ar draws y stryd brysur.




Fe agorodd Rajeev a Meena'r drws a mynd i mewn i'r deml. Yno, roedd yr offeiriad yn disgwyl amdany'n nhw. Croesawodd yr offeiriad Rajeev a Meena i'r deml. Roedd yr offeiriad yn gwisgo crys hir lliw hufen oedd yn cyrraedd at

ei bengliniau. Fe sylwodd Rajeev a Meena nad oedd yn gwisgo esgidiau, ac roedd ganddo farc wedi ei baentio ar ei dalcen. Ar y bathodyn, roedd ei enw, "Offeiriad Sandeep".



Rhoddodd yr offeiriad wahoddiad i Rajeev a Meena eistedd ar y cadeiriau wrth ei ddesg. Ar y ddesg, fe welodd Rajeev a Meena ei gyfrifiadur, lamp arti, a chopi o'r Gita. Yn y deml, fe welodd Rajeev a Meena'r allorau a'r cerfluniau o'r

duwiau a'r duwiesau. Fe ddywedodd yr offeiriad wrthyn nhw mai ei waith ef oedd helpu pobl i fyw bywyd Hindŵaidd iach.



Fe ddywedodd yr offeiriad wrth Rajeev a Meena ei fod yn gofalu am yr allorau er mwyn helpu pobl fyw bywyd Hindŵaidd iach. Pan aeth Rajeev a Meena i'r deml roedden nhw'n hoffi gweld yr allorau hardd a'r offrymau. Heddiw,

mae Rajeev a Meena'n ymuno gyda'r offeiriad mewn gwasanaeth puja. Fe aeth y ddau â Ganesh bach bob un adref gyda nhw i gofio am y diwrnod.



Mae Aled a Siân yn mwynhau gwranddo ar eu ffrindiau Peter a Mary, Nathan a Rachel, Ahmed a Salma, a Rajeev a Meena. Maen nhw wrth eu bodd yn gofyn cwestiynau am y bobl arbennig mae eu ffrindiau'n eu hadnabod. Maen

nhw wrth eu bodd yn cael ffrindiau sy'n Gristnogion, Iddewon, Mwslimiaid a Hindŵiaid, gyda storïau mor ddiddorol i'w rhannu â nhw.



Maen nhw'n dychmygu ymweld â'r eglwys, y synagog, y mosg, a'r deml. Maen nhw'n gweld y ficer gyda'r ystolau a'r Beibl, y rabi gyda'r siôl weddïo a'r llyfr gweddi, yr imam

gyda'r gleiniau gweddïo a'r Qur'an, a'r offeiriad gyda'r lamp arti a'r Gita.



Mae Aled a Siân yn meddwl am yr holl bobl arbennig o'u cwrpas. Maen nhw'n cofio bod pobl arbennig yn gwneud llawer o wahanol bethau. Mae Aled a Siân yn dechrau

gweld sut mae pobl arbennig o gymaint o wahanol grefyddau'r byd helpu pobl i fyw bywyd iach yng Nghymru heddiw.

Mae Aled a Siân yn archwilio pobl arbennig ac maen nhw'n ymweld â nyrs yn y Ganolfan Iechyd. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu hymweliad wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwrando ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn helpu eu ffrindiau i fyw bywyd iach.



Bear Lands Publishing